

Dydd Sul 4/4/21	9:45yb Cymun y Pasg	5:00yh Hwyrrol Weddi ar-lein
Arwain	Michael	Mark
Blodau	Blodau'r Pasg	
Cyfeilio	Aeron	
Darllen	Rolant	Emma
Darlleniadau	<i>Eseia 25: 6-9; Actau 8:26-40</i>	<i>Sul y Pasg</i>
Gweddïau		Mair
Lluniaeth		
Pregethu	Michael	Jamie

Dydd Sul 11/4/21	9:45yb Mawl y Bore	5:00yh Hwyrrol Weddi ar-lein
Arwain	Mark	Mark
Blodau	Blodau'r Pasg	
Cyfeilio	Aeron	
Darllen	Elena	Robert
Darlleniadau	<i>Actau 9:1-19</i>	<i>Salm 143:1-11; Eseia 26: 1-9,19; Luc 24:1-12</i>
Gweddïau	Rheinallt	Siôn
Lluniaeth		
Pregethu	Mark	Michael

11/4/21 Cyfarfod Blynyddol yr Eglwys (Eglwys)

Gweinidog:

Parch. Mark Ansell, Fenton, Maes y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2HL. 01970 617184
eglwysfair@gmail.com (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

Gweinidogion eraill:

Parch. **Cei Rees**, 01970 617184 cei@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)

Parch. **Liz Rees**, 01970 617184 liz@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)

Parch. **Becky Evans**, 01970 617184 becky@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

Parch. **Robert Wilkinson**, 01970 617184 robert@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Iau)



**Eglwys y
Santes
Fair**

**y Gair
y Groes
y Gymraeg**

4^{ydd} o Ebrill 2021

9:45yb Cymun y Pasg

Caneuon: **549**, GM1-90, Sgrin, **562, 389**

5:00yh Hwyrrol Weddi ar-lein gyda Jamie



Croeso i Eglwys y Santes Fair!

Diolch am ddod heddiw. Cynhelir gwasanaethau wythnosol yn y bore, ond mae ein gwasanaeth hwyrrol weddi yn parhau ar Zoom.

Y Pasg

Arglwydd pob bywyd a nerth, gorchfygaist hen drefn pechod a marwolaeth drwy atgyfodiad nerthol dy Fab er mwyn gwneud pob peth yn newydd ynddo ef:
caniatâ i ni, sy'n farw i bechod, ac yn fyw i ti yn Iesu Grist, deyrnasu gydag ef mewn gogoniant;
bydded iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân glod a moliant, gogoniant a gallu, yn awr ac yn dragwyddol. **Amen.**

Bydd yr Ysgol Sul i blant a phobl ifanc yn aildechrau cyn bo hir.



Mae system doler anwytho yn yr eglwys. Trowch eich teclyn clyw i'r gosodiad pwrpasol.

Gweddï Eglwys y Santes Fair

Arglwydd Iesu, addewaist adeiladu dy eglwys. Felly, os gweli di fod yn dda, adeilada dy eglwys yn ein plith. Cymorth ni i ddyfnhau ein perthynas â thi, a chynydda'r nifer o Gristnogion newydd sy'n addoli yma trwy gydol y flwyddyn, er mwyn dy anrhydedd yn y plwyf hwn. **Amen.**

www.eglwysfair.cymru



Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth



@eglwysfair

Newyddion Teulu'r

Eglwys

Rhoi i'r Eglwys

Diolch yn fawr i'r rhai sydd wedi bod yn cyfrannu yn ariannol at yr Eglwys yn ystod y cyfnod clo. Cofiwch eich bod chi'n gallu gwneud cyfraniad trwy ein gwefan, trwy drosglwyddiad banc, neu drwy'r cynllun "rhoi yn syth" gan yr Eglwys yng Nghymru. Gofynnwch am fyw o fanylion.

Gwasanaeth ar-lein

Mae gwasanaeth *Hwyrol Weddi* am 5yh bob nos Sul drwy raglen Zoom. Bydd angen rhif y cyfarfod – sef 964 3320 1895 – a'r cyfrinair, sef 1588. Gallwch ymuno drwy ffôn hefyd: Ffoniwch - 0203 051 2874 ac wedyn rhwch rhif y cyfarfod, wedyn yr allwedd #, wedyn 1588 wedyn # eto.

Church Suite

Mae'r plwyf wedi mabwysiadu ap newydd i'r ffon a chyfrifiadur – *Churchsuite*. Byddwch chi'n derbyn e-bost oddi wrth swyddfa'r plwyf yn wythnos nesaf i'ch gwahodd chi i'r system. Bydd trefniadau a digwyddiad eglwysig i gyd ar y system yn y dyfodol. Ewch i <https://login.churchsuite.com/> am fwy o wybodaeth, neu lawrlwytho'r ap i'ch ffôn.

Cyfarfod blynyddol

Cynhelir ein cyfarfod blynyddol ddydd Sul 11^{eg} o Ebrill ar ôl y gwasanaeth yn y bore.

Yn Eglwys y Santes Fair...

rydym yn **creu cymuned**

sy'n **caru'n**

cymdeithas er

mwyn **cyflwyno**

Crist.



Actau 8: 26-40

Philip a'r Eunuch o Ethiopia

²⁶Llefarodd angel yr Arglwydd wrth Philip: "Cod," meddai, "a chymer daith tua'r de, i'r ffordd sy'n mynd i lawr o Jerwsalem i Gasa." Ffordd anial yw hon. ²⁷Cododd yntau ac aeth. A dyma wŷr o Ethiop, eunuch, swyddog uchel i Candace brenhines yr Ethiopiaid, ac yn ben ar ei holl drysor hi; yr oedd hwn wedi dod i Jerwsalem i addoli, ²⁸ac yr oedd yn dychwelyd ac yn eistedd yn ei gerbyd, yn darllen y proffwyd Eseia.

²⁹Dywedodd yr Ysbryd wrth Philip, "Dos a glŷn wrth y cerbyd yna."

³⁰Rhedodd Philip ato a chlywodd ef yn darllen y proffwyd Eseia, ac meddai, "A wyt ti'n deall, tybed, beth yr wyt yn ei ddarllen?" ³¹Meddai yntau, "Wel, sut y gallwn i, heb i rywun fy nghyfarwyddo?" Gwahoddodd Philip i ddod i fyny ato ac eistedd gydag ef. ³²A hon oedd yr adran o'r Ysgrythur yr oedd yn ei darllen:

"Arweiniwyd ef fel dafad i'r lladdfa, ac fel y bydd oen yn ddistaw yn llaw ei gneifiwr, felly nid yw'n agor ei enau.

³³Yn ei ddarostyngiad gomeddwyd iddo farn.

Pwy all draethu am ei ddisgynyddion?

Oherwydd cymerir ei fywyd oddi ar y ddaear."

³⁴Meddai'r eunuch wrth Philip, "Dywed i mi, am bwy y mae'r proffwyd yn dweud hyn? Ai amdano'i hun, ai am rywun arall?" ³⁵Yna agorodd Philip ei enau, a chan ddechrau o'r rhan hon o'r Ysgrythur traethodd y newydd da am Iesu iddo. ³⁶Fel yr oeddent yn mynd rhagddynt ar eu ffordd, daethant at ryw ddŵr, ac ebe'r eunuch, "Dyma ddŵr; beth sy'n rhwystro imi gael fy medyddio?" ³⁸A gorchmynnodd i'r cerbyd sefyll, ac aethant i lawr ill dau i'r dŵr, Philip a'r eunuch, ac fe'i bedyddiodd ef. ³⁹Pan ddaethant i fyny o'r dŵr, cipiwyd Philip ymaith gan Ysbryd yr Arglwydd; ni welodd yr eunuch mohono mwyach, ac aeth ymlaen ar ei ffordd yn llawen.

⁴⁰Cafodd Philip ei hun yn Asotus, ac aeth o gwmpas dan gyhoeddi'r newydd da yn yr holl ddinasoedd nes iddo ddod i Gesarea.